

# Castell Caerdydd

## Sesiwn Fictoraidd Safonol yn y Ganolfan Addysg

### Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg.

### Disgrifiad

Caiff y sesiwnau hyn eu haddasu yn ôl oed ac anghenion y plant yn y dosbarth.

Yn gyffredinol, bydd sesiwn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i'r Castell yn oes Fictoria gan gynnwys teulu Bute a oedd yn berchen y Castell, y dillad a wisgwyd gan y teulu a'u gweision a datblygiad Castell Caerdydd, a ddangosir gan ddefnyddio'r model o'r Castell yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ.
- Yna ceir gweithgaredd gwisgo i fyny a chwarae rôl. Gall disgyblion wisgo fel gweision Fictoraidd a dysgu sut y dylent gyfarch aelod o deulu Bute
- Sesiwn trin gwrthrychau gan gynnwys amrywiaeth eang o arteffactau gwreiddiol ynghyd â rhai replicas. Gweithgareddau grŵp gyda gwrthrychau dirgel gan gynnwys datrys problemau, sgiliau meddwl, ymresymu, gwaith tîm, creadigrwydd a drama.

Cynhelir y sesiwn hon gan y Swyddog Addysg sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB) neu un o dywysyddion y Castell

### Taith o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ wedi'i chynnwys ym mhris yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r plant i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

### Hyd

Bydd y sesiwn yn para 75 munud er gellir dewis sesiwnau byrrach weithiau gan grwpiau sy'n brin o amser neu sydd â phlant iau (30 munud). Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud. Gall athrawon sydd â phlant iau ddewis taith fyrrach sy'n hepgor y grisiau troellog i ben un o'r tyrau.

### Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- Dysgu am y teulu Bute - perchnogion Castell Caerdydd yn ystod oes Fictoria - a datblygiad y Castell
- Dysgu am y dillad a wisgwyd gan y plant cyfoethog a'r gweision ar y pryd a gwisgo i fyny fel gweision
- Dysgu sut i actio fel gweision yn ystod gweithgaredd chwarae rôl
- Dysgu sut i drin arteffactau gwreiddiol yn ddiogel gyda gofal a pharch
- Dysgu sut i ddefnyddio sgiliau meddwl a datrys problemau i weithio allan sut y byddai gwrthrychau'n cael eu defnyddio
- Dysgu i weithio mewn tîm a chymryd tro i gyfrannu at gyflwyniad grŵp
- Cyflwyno syniadau gan ddefnyddio lleferydd clir, creadigrwydd a sgiliau actio

### Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- Y Cyfnod Sylfaenol (Cymru)**
  - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
  - Bywydau dynion, merched a phlant arwyddocaol a dynnwyd o hanes Prydain a'r byd ehangach (er enghraifft artistiaid, peirianwyr, fforwyr, dyfeiswyr, arloeswyr, rheolwyr, saint, gwyddonwyr)
  - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw
- Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
  - Newidiadau i fywydau bob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hanes)
- Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
  - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066

### Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant

- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.